Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymraeg Santes Tudful
**Pantyffyn Road**
**Mountain Hare**
**Merthyr Tudful**
**CF47 0HU**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 16/08/2016**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gynradd Gymraeg Santes Tudful ar gyrion canol tref Merthyr Tudful o fewn awdurdod lleol Merthyr Tudful.

Mae 443 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr.  Mae 15 dosbarth gyda disgyblion o'r un oed ac un dosbarth oed cymysg.  Mae gan yr ysgol 66 o ddisgyblion yn y dosbarth meithrin rhan amser.  Mae'r ysgol yn darparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg.  Daw tua 2% o gartrefi lle siaredir Cymraeg.  Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n dod o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.

Mae 13.4% o'r disgyblion yn deilwng i dderbyn prydau ysgol am ddim, ffigwr sy'n is na chyfartaleddau Cymru.  Mae gan 15.8% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n cael gofal gan yr awdurdod lleol.

Mae'r gyllideb ysgol unigol ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Santes Tudful yn 2015-2016 yn £3,347 fesul disgybl.  Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd ym Merthyr Tudful yw £4,406 a'r lleiafswm yw £3,347.  Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Santes Tudful yn yr 22ain safle o'r 22 ysgol gynradd ym Merthyr Tudful o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Mae'r pennaeth yn ei swydd ers Medi 2015.  Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym Mawrth 2012.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Da |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- bod rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol
- bod bron bob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os oes pryder ganddynt
- bod yr ysgol yn darparu ystod bwrpasol o brofiadau dysgu sy'n diwallu anghenion rhan fwyaf y disgyblion yn llwyddiannus
- bod cwricwlwm yr ysgol yn hybu dealltwriaeth disgyblion o iaith a diwylliant Cymru yn gadarn iawn
- bod perthynas dda yn bodoli rhwng y disgyblion a'r staff cyfan
- mewn llawer o ddosbarthiadau, mae'r addysgu'n gyson dda neu'n well
- bod yr ysgol yn gymuned hapus, gynhwysol a gofalgar lle teimla'r disgyblion yn ddiogel
- un o nodweddion arbennig yr ysgol yw'r ethos teuluol sy'n bodoli ynddi

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar sicrhau llwyddiant i bob disgybl, a hybu eu Cymreictod
- mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth glir o flaenoriaethau gwella yr ysgol ac maent yn cynnig her werthfawr i'r staff a'r uwch dîm rheoli er mwyn eu cyflawni
- bod gan yr ysgol weithdrefnau cadarn ar gyfer hunanarfarnu, sy'n seiliedig ar ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol
- bod yr ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod dda o bartneriaethau buddiol sy'n ymestyn profiadau dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus
- bod yr ysgol wedi ei staffio'n briodol i addysgu pob agwedd o'r cwricwlwm
- bod ymroddiad gwerthfawr y cynorthwywyr yn dylanwadu'n dda ar wella cyraeddiadau'r disgyblion
- bod yr ysgol yn rhoi gwerth da am arian o ystyried deilliannau disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth

## Argymhellion

A1 Sicrhau ystod o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm

A2 Cynnig cyfleoedd cyson i ddisgyblion weithio'n annibynnol er mwyn iddynt gymryd rôl lawn yn eu dysgu eu hunain

A3 Gwella llawysgrifen a chyflwyniad gwaith disgyblion ar draws yr ysgol

A4 Cryfhau gweithdrefnau asesu ar gyfer dysgu er mwyn sicrhau bod disgyblion yn deall sut y gallant wella'u gwaith, a chynnig cyfleoedd priodol iddynt ymateb i adborth athrawon

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Ar fynediad i'r ysgol, mae medrau sylfaenol bron pob disgybl yn is na'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau llafar yn effeithiol ac yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa yn llwyddiannus mewn sefyllfaoedd amrywiol. Maent yn sgwrsio a thrafod gyda'u cyfoedion ac oedolion yn hyderus ac yn fedrus iawn. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn siarad yn ddeallus ac yn ymateb yn eiddgar i gwestiynau athrawon yn y ddwy iaith. Maent yn cyfrannu'n dda i drafodaethau, gan fynegi barn yn glir a chydag ystod eang o eirfa aeddfed.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n dda. Mae'r disgyblion ieuengaf yn adnabod llythrennau a seiniau yn gywir ac yn dechrau adeiladu geiriau'n effeithiol. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn datblygu'n ddarllenwyr hyderus gan ddarllen gyda chywirdeb a rhuglder. Maent yn trafod eu hoff storïau yn frwdfrydig ac yn gwahaniaethu rhwng gwahanol fathau o lyfrau.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn gynyddol effeithiol yn Gymraeg a Saesneg. Maent yn defnyddio ffynonellau gwahanol yn llwyddiannus, gan gynnwys technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), er mwyn caffael gwybodaeth sy'n cefnogi eu dysgu ar draws y cwricwlwm. Maent yn deall nodweddion llyfrau ac awduron yn dda ac yn gallu nodi eu hoffterau'n glir.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu ystod gynyddol o frawddegau syml yn annibynnol, gyda'r mwyafrif o eiriau cyffredin wedi eu sillafu'n gywir a chydag atalnodi pwrpasol. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd arwyddocaol yn eu hyfedredd i ddefnyddio'r iaith i ysgrifennu darnau estynedig ar draws y cwricwlwm. Maent yn atalnodi'n gywir ac yn defnyddio ansoddeiriau ac idiomau amrywiol i gyfoethogi'r gwaith. Defnyddiant ystod eang o eirfa aeddfed wrth wella safon eu gwaith. Er enghraifft, 'glaniodd mam-gu ar y tywod euraidd meddal melyn'.

Mae rhan fwyaf disgyblion cyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n estynedig yn Gymraeg a Saesneg mewn ystod dda o ffurfiau i safon sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Maent yn amrywio brawddegau'n hyderus ac yn addasu'r hyn y maent yn ei ysgrifennu yn ôl diben y darllenydd yn effeithiol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n glir ac yn ddiddorol, gan baragraffu ac atalnodi'n gywir. Mae llawer ohonynt yn defnyddio ystod eang o eirfa'n llwyddiannus i gyfoethogi'u gwaith, gan gynnwys ansoddeiriau, idiomau a chymariaethau. Er enghraifft, drwy weithgareddau hetiau meddwl, maent yn mynegi barn yn hyderus ar themâu fel 'oes angen mynd tu hwnt i Gymru i gael gwyliau da?' Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn ysgrifennu'n ddigon aml mewn meysydd ar draws y cwricwlwm. Ar adegau, nid yw llawysgrifen a chyflwyniad gwaith llawer o ddisgyblion yn ddigon taclus.

Mae medrau rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n llwyddiannus ar draws y Cyfnod Sylfaen. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn dangos gafael sicr ar ffeithiau rhif ac yn defnyddio'r wybodaeth yn fedrus i ddatrys problemau ar draws y meysydd dysgu yn effeithiol. Gall llawer ddefnyddio unedau safonol i fesur a chynnal tasgau ar gynhwysedd gyda chywirdeb da wrth wneud diodydd iach. Mae llawer yn gallu trin data yn bwrpasol. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio arian yn effeithiol wrth chwarae rôl yn siop y dosbarth.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o strategaethau rhif, ac maent yn hyderus wrth ddefnyddio ystod eang o strategaethau i ddatrys problemau mathemategol. Mae'r rhan fwyaf yn fedrus wrth amcangyfrif, gan resymu eu hatebion yn aeddfed. Er enghraifft, gallant ddefnyddio medrau rhif yn llwyddiannus i gyfrifo faint o fwyd i brynu i wyth oedolyn yn ystod y dogni bwyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Maent yn defnyddio geirfa fathemategol yn gynyddol hyderus.

Mae llawer o ddisgyblion yn trin a dadansoddi data yn briodol ac yn gallu cynhyrchu graffiau syml yn bwrpasol. Mae medrau mathemategol rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn gadarn. Fodd bynnag, nid ydynt yn cymhwyso eu medrau mewn meysydd ar draws y cwricwlwm yn ddigon da.

Mae rhan fwyaf y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau. Yn gyffredinol, mae'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd pwrpasol yn unol â'u gallu.

O gymharu ag ysgolion tebyg, dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliannau disgwyliedig yn y Cyfnod Sylfaen wedi amrywio rhwng yr 50% uwch a'r 50% is mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol. Mae perfformiad yr ysgol ar y deilliannau uwch dros yr un cyfnod wedi amrywio rhwng 25% isaf a'r 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

Yn ystod yr un cyfnod, ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, yn gyffredinol wedi amrywio rhwng yr 25% uwch a'r 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad yr ysgol ar y lefel uwch wedi amrywio rhwng y 50% is ar 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

**Lles: Da**

Mae bron bob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os oes pryder ganddynt. Ar draws yr ysgol, mae safon ymddygiad bron bob un o'r disgyblion yn arbennig o dda ac maent yn gwrtais i'w gilydd ac oedolion. Mae bron pob disgybl yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd bwyta a byw yn iach ac maent yn mwynhau ystod o weithgareddau corfforol.

Mae bron bob un o'r disgyblion yn cymryd cyfrifoldeb aeddfed am eu gwaith ac yn canolbwyntio'n ofalus am gyfnodau hir. Mae disgyblion hŷn yr ysgol yn cyfrannu'n bwrpasol i gyfeiriad eu dysgu, trwy gynllunio gweithgareddau eu hunain ac awgrymu is themâu, er enghraifft i greu byd digidol. Mae'r rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn ymwybodol o'u targedau llythrennedd a rhifedd ac maent yn eu defnyddio'n bwrpasol i wella eu gwaith.

Mae llawer o ddisgyblion yn awyddus i dderbyn cyfrifoldebau ac mae rôl y 'bydis' wedi ymwreiddio'n dda. Mae'r cyngor ysgol yn chwarae rôl flaenllaw, gan drafod syniadau a phryderon y disgyblion yn bwrpasol. Mae'r disgyblion hŷn wedi cyfrannu tuag at hunanarfarniad yr ysgol ac, o ganlyniad, mae mwy o arddangosfeydd i hybu'r dysgu yn y dosbarthiadau.

Mae disgyblion hynaf yr ysgol yn cael cyfleoedd entrepreneuraidd gwerthfawr yn y ffeiriau blynyddol a'r wythnos medrau i gasglu arian tuag at elusennau o'u dewis. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cymryd rhan flaenllaw mewn gweithgareddau cymunedol. Er enghraifft, maent yn canu i'r henoed ac yn rhan o'r Ddawns Fawr.

Mae presenoldeb wedi bod rhwng y 50% uwch a 25% uchaf o ysgolion tebyg dros y tair blynedd diwethaf. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn darparu ystod bwrpasol o brofiadau dysgu sy'n diwallu anghenion rhan fwyaf y disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r athrawon yn cynllunio'r cwricwlwm yn briodol er mwyn sicrhau bod profiadau dysgu yn bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol. Darperir profiadau diddorol i hyrwyddo'r dysgu ar gyfer y disgyblion yn y dosbarthiadau cychwynnol yn y Cyfnod Sylfaen tu mewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth. Fodd bynnag, nid yw'r profiadau hyn mor amlwg i ddisgyblion hŷn y Cyfnod Sylfaen.

Mae amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol, ynghyd â chyfraniadau gan aelodau'r gymuned, yn cyfrannu'n dda at ddatblygu lles a ffitrwydd disgyblion.

Mae'r ysgol wedi bod yn araf yn ymateb yn ddigon effeithiol i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae athrawon yn cynnig ystod dda o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhif mewn gwersi iaith a mathemateg. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso eu medrau ar draws y cwricwlwm. Mae'r cwricwlwm yn darparu amrediad addas o weithgareddau technoleg gwybodaeth ac i ddatblygu medrau meddwl sy'n cysylltu'n llwyddiannus â bywyd bob dydd, er enghraifft trwy wneud ymchwil ar siwgr cudd mewn bwydydd a diodydd.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn hybu dealltwriaeth disgyblion o iaith a diwylliant Cymru yn gadarn iawn. Nodwedd gref o hyn yw bod pob disgybl yng nghyfnod allweddol 2 yn cael cyfle i aros yn Llangrannog y penwythnos cyntaf ym mis Medi er mwyn iddynt gael cyfle i ailafael yn eu hiaith lafar ar ôl gwyliau'r haf. Mae ymweliadau preswyl i ardal y chwareli yng Ngogledd Cymru a theithiau o gwmpas y dref yn cyfoethogi'n sylweddol ddealltwriaeth y disgyblion o'u hanes diwylliannol a'u treftadaeth.

O fewn gwasanaethau'r ysgol, mae'r Cyngor Eco yn hybu ymwybyddiaeth y disgyblion am sut i fyw mewn modd cynaliadwy. Mae cyfleoedd effeithiol i ddysgu am ddinasyddiaeth fyd eang, sy'n magu dealltwriaeth disgyblion o fywyd pobl mewn gwledydd eraill. Enghraifft dda o hyn yw gweithgareddau'r disgyblion wrth gymharu eu bywyd yng Nghymru â bywyd plentyn yn Affrica.

**Addysgu: Da**

Mae perthynas dda yn bodoli rhwng y disgyblion a’r staff cyfan.

Mewn llawer o ddosbarthiadau mae’r addysgu’n gyson dda neu’n well. Yn y dosbarthiadau hyn, mae brwdfrydedd yr athrawon yn cyfrannu’n llwyddiannus tuag at ennyn diddordeb a brwdfrydedd y disgyblion. Mae disgwyliadau uchel ganddynt a cheir nodau dysgu pendant i’r gwersi. Mae’r athrawon yn cynllunio ystod o weithgareddau sydd â lefel briodol o her i fodloni anghenion dysgu’r disgyblion ac maent yn cynllunio ar gyfer datblygu medrau meddwl yn fedrus.

Mae athrawon yn creu amgylchedd dysgu pwrpasol, gan holi’n fedrus sy’n cyfoethogi’r dysgu. Mae’r cynorthwywyr dysgu yn cael eu defnyddio’n effeithiol ar draws yr ysgol.

Yn yr ychydig enghreifftiau lle mae’r addysgu’n llai effeithiol, mae gorgyfarwyddo yn cyfyngu gallu’r disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol. O ganlyniad, nid oes digon o her i sicrhau bod disgyblion o allu uwch yn gwneud cynnydd digon da.

Mae’r athrawon ar draws yr ysgol wedi mabwysiadu strategaethau asesu ar gyfer dysgu defnyddiol, er mwyn cynnig cyfleoedd addas i ddisgyblion ddechrau asesu eu gwaith a gwaith eu cyfoedion. Maent yn cynnig adborth llafar defnyddiol yn ystod y gwersi. Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn gyson ac yn cynnig sylwadau sy’n dathlu llwyddiant yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw’r targedau i gynorthwyo disgyblion i wybod sut i wella eu gwaith yn ddigon eglur.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau priodol i asesu ac olrhain cynnydd disgyblion. Trwy hyn, mae anghenion disgyblion yn cael eu hadnabod yn gynnar. Mae’r ysgol yn gwneud defnydd pwrpasol o’r holl asesiadau er mwyn cynllunio ar gyfer grwpiau o ddisgyblion sy’n cyfrannu’n dda at wella safonau, er enghraifft mewn medrau mathemateg.

Mae adroddiadau i rieni yn gynhwysfawr ac yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol ynghylch camau dysgu nesaf y disgyblion.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r ysgol yn gymuned hapus, gynhwysol a gofalgar lle teimla’r disgyblion yn ddiogel. Mae'r staff yn hyrwyddo lles y disgyblion yn dda ac yn pwysleisio pwysigrwydd iechyd corfforol yn gyson. Mae trefniadau effeithiol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae’r ysgol yn cynnig nifer o weithgareddau allgyrsiol, fel y clwb coginio, sy’n hybu medrau paratoi bwyd iachus yn llwyddiannus.

Mae darpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn gynhwysfawr ac mae staff yn hybu gwerthoedd yn seiliedig ar barch a charedigrwydd. Mae’r cysylltiadau agos iawn â’r capeli a’r eglwys leol yn cynnig profiadau gwerthfawr i’r disgyblion. Er enghraifft, gwahoddir y gweinidog lleol i'r ysgol i gynnal gwasanaethau gwerthfawr.

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gyda nifer o asiantaethau a gwasanaethau arbenigol ac mae'r cysylltiadau hyn yn sicrhau cymorth ac arweiniad effeithiol i'r disgyblion. Mae'r clwb ffrindiau yn enghraifft effeithiol iawn o ofalaeth yr ysgol dros ddisgyblion bregus. Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol i hyfforddi disgyblion i fentora eu cyfoedion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae ymyrraeth bwrpasol ar gyfer y disgyblion, gyda chynlluniau addysg unigol addas. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd effeithiol. Mae'r targedau clir yn y cynlluniau addysg unigol yn seiliedig ar fewnbwn disgyblion a'u rhieni. Maent yn cael eu hadolygu'n dymhorol er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac i ymestyn dysgu'r disgyblion yn gyson.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Nodwedd arbennig o'r ysgol yw'r ethos teuluol sy'n bodoli ynddi. Mae ymdeimlad cynhwysol, cefnogol a chyfeillgar i'r ysgol, lle y mae disgyblion yn cael cyfle cyfartal i gymryd rhan yn ei holl weithgareddau. Rhoddir pwyslais ar bwysigrwydd dangos parch a chwrteisi at bawb.

Mae arddangosfeydd symbylus a deniadol yn y dosbarthiadau sy'n cefnogi'r dysgu'n effeithiol. Ceir digon o adnoddau o ansawdd da i fodloni gofynion y cwricwlwm yn briodol.

Mae adeilad a thir yr ysgol yn ddiogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Mae'r mannau dysgu allanol wedi eu datblygu mewn modd creadigol er mwyn gwneud defnydd effeithiol o'r gofod sydd ar gael ac i wella profiadau dysgu a chwarae'r disgyblion. Mae'r tir helaeth yn ymestyn y dysgu a datblygiad corfforol disgyblion yn llwyddiannus, er enghraifft trwy'r defnydd o'r ardal arddio a'r ardal wyllt.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar sicrhau llwyddiant i bob disgybl, a hybu eu Cymreictod. Ers ei benodiad ym Medi 2015, mae'n darparu arweiniad cryf ac yn cydweithio'n llwyddiannus gyda disgyblion, staff, llywodraethwyr a rhieni i gyflawni'r weledigaeth honno.

Mae aelodau'r uwch dîm rheoli, sy'n newydd i'w rolau, yn cefnogi'r pennaeth yn effeithiol. Maent yn dangos ymrwymiad cryf i ddatblygu a hyrwyddo gwelliannau drwy wreiddio nifer o strategaethau gwerthfawr ar draws yr ysgol. Mae eu rôl yn y broses o fonitro a sicrhau ansawdd yn datblygu'n dda.

Mae cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac yn canolbwyntio’n glir ar flaenoriaethau gwella.  Maent yn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o’u cyfrifoldebau wrth gyflawni’r blaenoriaethau hynny.  Mae gan yr athrawon ddisgrifiadau swydd manwl, sy’n cysylltu’n dda â’u cyfrifoldebau unigol.

Mae’r corff llywodraethol yn cefnogi’r ysgol yn effeithiol ac yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol yn gydwybodol.  Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth glir o’r targedau yng nghynllun gwella’r ysgol ac maent yn cynnig her werthfawr i’r ysgol.  Er enghraifft, maent yn dadansoddi data asesiadau o gynnydd disgyblion i sicrhau bod yr ysgol yn cyrraedd y targedau sydd wedi eu nodi yn y cynllun gwella ysgol.

Mae’r ysgol yn gwneud cynnydd cadarnhaol wrth gyflwyno blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, er enghraifft wrth gyflwyno strategaethau pwrpasol i wella lles a chyflawniad disgyblion mwy bregus.  Fodd bynnag, nid yw’r ysgol wedi gwneud digon o gynnydd tuag at ymateb yn llawn i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

**Gwella ansawdd:  Da**

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn ar gyfer hunanarfarnu, sy’n seiliedig ar ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol.  Maent yn cynnwys dadansoddiadau o ddata perfformiad, arsylwadau o wersi, craffu ar lyfrau a chasglu barnau disgyblion, rhieni a llywodraethwyr ac adroddiadau ymgynghorwyr.

Mae’r athrawon i gyd yn gyfrifol am ddefnyddio’r data i adnabod anghenion y disgyblion sydd yn eu dosbarthiadau.  O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gywir o’r cryfderau a’r meysydd sydd angen eu gwella.  Mae arweinwyr yn defnyddio’r wybodaeth sy’n deillio o'r hunanarfarnu yn effeithiol i bennu blaenoriaethau clir i’w cynnwys yng nghynllun gwella’r ysgol.  Mae’r pennaeth yn sicrhau bod staff, disgyblion a llywodraethwyr yn chwarae rhan bwrpasol yn y broses.

Mae perthynas addas yn bodoli rhwng deilliannau’r weithdrefn hunanarfarnu â blaenoriaethau’r cynllun gwella’r ysgol.  Mae’r cynllun yn canolbwyntio’n gadarn ar godi safonau ac ehangu’r ddarpariaeth.  Mae’n cyfeirio’n glir at strategaethau manwl ar gyfer mynd i’r afael â’r hyn sydd angen ei ddatblygu er mwyn codi safonau ymhellach.  Mae’n cynnwys dangosyddion llwyddiant mesuradwy, cyfrifoldebau staff a chostau, ynghyd ag amserlen ar gyfer gwerthuso'r targedau.  Mae’r camau gweithredu eisoes yn cael effaith gadarnhaol, er enghraifft wrth wella medrau ysgrifennu disgyblion a chodi deilliannau cyrhaeddiad uwch y disgyblion.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae’r ysgol yn gweithio’n effeithiol mewn ystod dda o bartneriaethau buddiol sy’n ymestyn profiadau dysgu’r disgyblion yn llwyddiannus.

Mae partneriaeth werthfawr yn bodoli rhwng yr ysgol â’r rhieni.  Maent yn gwerthfawrogi’r cyfathrebu cyson sydd rhyngddynt â’r ysgol, er enghraifft wrth allu defnyddio wefan yr ysgol i wirio’r tasgau gwaith cartref.  Yn ogystal, cynhelir sesiynau i gyflwyno strategaethau dysgu’r ysgol fel bod rhieni yn gwybod sut i gefnogi eu plant.  Mae hyn yn cael effaith bositif ar eu cyrhaeddiad.  Mae’r gymdeithas rieni yn weithgar iawn, ac yn ddiweddar wedi ariannu adnoddau technoleg gwybodaeth buddiol.  Maent yn cynnal a chadw bws mini'r ysgol er mwyn estyn profiadau’r disgyblion ymhellach.

Mae partneriaeth dda rhwng yr ysgol â'r gymuned leol. Mae aelodau o'r gymuned yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion, er enghraifft drwy ymweld i ddangos gwenyn i'r dosbarth meithrin. Mae'r disgyblion yn ymweld yn gyson â chanolfannau cyfagos i gynnal cyngherddau. Mae hyn yn codi eu hymwybyddiaeth o'u cymuned yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda chylchoedd meithrin yr ardal i sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n gyflym yn y dosbarth meithrin. Mae trefniadau buddiol ar ddiwedd bob blwyddyn i ddisgyblion gael blas ar eu dosbarthiadau newydd o fewn yr ysgol. Mae ystod ac ansawdd y trefniadau trosglwyddo ar gyfer y disgyblion hŷn i'r ysgol uwchradd yn dda. Maent yn cael eu paratoi'n drylwyr at y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae'r athrawon yn cydweithio'n agos â'r ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd yn y dalgylch i gyd-safoni a chymedroli asesiadau athrawon er mwyn sicrhau dilysrwydd yr asesiadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol i addysgu pob agwedd o'r cwricwlwm. Mae ymroddiad gwerthfawr y cymorthyddion yn dylanwadu'n dda ar wella cyraeddiadau'r disgyblion, er enghraifft wrth sicrhau cefnogaeth ofalus i godi safonau cyrhaeddiad a gwella lles disgyblion.

Mae gan yr ysgol amrediad da o adnoddau sy'n cael eu defnyddio a'u rheoli'n effeithiol er mwyn sicrhau mynediad llawn i ddisgyblion i bob agwedd o'r cwricwlwm. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro a rheoli gwariant yn ofalus er mwyn sicrhau bod adnoddau ariannol yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi blaenoriaethau ar gyfer gwella.

Mae prosesau rheoli perfformiad yn effeithiol. Maent yn arwain yn llwyddiannus at ddatblygiad staff mewn meysydd sy'n seiliedig ar flaenoriaethau gwella'r ysgol, er enghraifft drwy rannu arfer dda i ddatblygu ysgrifennu estynedig disgyblion. Gwna'r athrawon ddefnydd effeithiol o'u hamser digyswllt ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu cynnydd disgyblion.

Mae'r ysgol yn datblygu'n gymuned ddysgu effeithiol. Mae nifer o rwydweithiau dysgu gydag ysgolion eraill sy'n cynnig cyfleoedd buddiol i athrawon rannu arfer dda, er enghraifft wrth ddefnyddio adnoddau priodol i gryfhau gafael disgyblion o ffeithiau rhif. Mae'r triawdau dysgu, a sefydlwyd o fewn yr ysgol, yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd yr addysgu.

Mae'r ysgol wedi targedu arian y Grant Amddifadedd Disgyblion yn synhwyrol i ariannu cynorthwywyr i gefnogi grwpiau ac unigolion. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau a safonau darllen a lles disgyblion.

Mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian o ystyried deilliannau disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6752042 - YSGOL SANTES TUDFUL**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 437 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 13.4 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 52 | 61 | 54 | 61 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 88.5 | 88.5 | 90.7 | 88.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 52 | 61 | 54 | 61 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 90.4 | 90.2 | 92.6 | 91.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 28.8 | 16.4 | 29.6 | 32.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 | 3 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 52 | 61 | 54 | 61 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 90.4 | 91.8 | 94.4 | 90.2 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 2 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 34.6 | 13.1 | 33.3 | 36.1 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 2 | 3 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 52 | 61 | 54 | 61 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 96.7 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 48.1 | 21.3 | 37.0 | 42.6 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 4 | 4 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6752042 - YSGOL SANTES TUDFUL**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 437 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 13.4 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 43 | 38 | 43 | 47 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 86.0 | 89.5 | 95.3 | 89.4 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 2 | 3 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 43 | 38 | 43 | 47 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 90.7 | 92.1 | 97.7 | 91.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 30.2 | 28.9 | 41.9 | 46.8 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 2 | 2 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 43 | 38 | 43 | 47 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 86.0 | 89.5 | 100.0 | 91.5 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 1 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 23.3 | 28.9 | 37.2 | 46.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 2 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 43 | 38 | 43 | 47 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 90.7 | 89.5 | 95.3 | 93.6 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 2 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 37.2 | 42.1 | 39.5 | 40.4 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 | 3 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 43 | 38 | 43 | 47 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 90.7 | 94.7 | 100.0 | 97.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 1 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 34.9 | 44.7 | 44.2 | 53.2 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 2 | 2 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

*Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.*

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 104 | 103<br>99% | 1<br>1% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 104 | 100<br>96% | 4<br>4% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 104 | 99<br>95% | 5<br>5% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 104 | 103<br>99% | 1<br>1% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 104 | 101<br>97% | 3<br>3% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 104 | 99<br>95% | 5<br>5% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 103 | 100<br>97% | 3<br>3% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 104 | 101<br>97% | 3<br>3% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 103 | 96<br>93% | 7<br>7% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 104 | 93<br>89% | 11<br>11% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 104 | 65<br>62% | 39<br>38% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 104 | 79<br>76% | 25<br>24% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i’r holiadur i rieni

*Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.*

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 114 | 81<br>71% | 28<br>25% | 4<br>4% | 1<br>1% | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 114 | 94<br>82% | 18<br>16% | 2<br>2% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 114 | 84<br>74% | 28<br>25% | 1<br>1% | 1<br>1% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 114 | 73<br>64% | 37<br>32% | 3<br>3% | 1<br>1% | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 110 | 63<br>57% | 41<br>37% | 5<br>5% | 1<br>1% | 4 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 112 | 70<br>62% | 38<br>34% | 4<br>4% | 0<br>0% | 2 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 61% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 113 | 74<br>65% | 38<br>34% | 1<br>1% | 0<br>0% | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 65% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 111 | 56<br>50% | 49<br>44% | 5<br>5% | 1<br>1% | 2 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 50% | 43% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 109 | 69<br>63% | 31<br>28% | 7<br>6% | 2<br>2% | 5 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 60% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 113 | 69<br>61% | 41<br>36% | 2<br>2% | 1<br>1% | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 60% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 112 | 77<br>69% | 33<br>29% | 0<br>0% | 2<br>2% | 2 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 66% | 31% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 102 | 57<br>56% | 38<br>37% | 2<br>2% | 5<br>5% | 10 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 111 | 56<br>50% | 48<br>43% | 5<br>5% | 2<br>2% | 2 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 113 | 70<br>62% | 36<br>32% | 6<br>5% | 1<br>1% | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 101 | 57<br>56% | 36<br>36% | 7<br>7% | 1<br>1% | 13 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 111 | 71<br>64% | 37<br>33% | 2<br>2% | 1<br>1% | 3 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 92 | 51<br>55% | 33<br>36% | 7<br>8% | 1<br>1% | 20 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 111 | 71<br>64% | 34<br>31% | 6<br>5% | 0<br>0% | 3 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 55% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 111 | 80<br>72% | 26<br>23% | 4<br>4% | 1<br>1% | 3 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Eleri Anwen Hurley | Arolygydd Cofnodol |
| Rosemarie Wallace | Arolygydd Tîm |
| Jeffrey Wyn Davies | Arolygydd Lleyg |
| Llion Elis | Arolygydd Cymheiriaid |
| Buddug Mai Bates | Arolygydd Cymheiriaid |
| Gwyndaf Jones | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.